Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Ddysgu Glanynant (UCD)
# Stryd Hanbury
# Glanynant
# Caerffili
# NP12 3XP

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
## a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2014**

## Cyd-destun

Mae'r Ganolfan Addysgu a Dysgu, sy'n cael ei hadnabod fel uned cyfeirio disgyblion (UCD) Glanynant, yng Nghwm Rhymni i'r gogledd o Gaerffili. Fe'i hagorwyd yn ddarpariaeth cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn 2007. Mae'n darparu addysg tymor byr ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae disgyblion yn mynychu'r UCD i ddysgu rheoli eu hemosiynau a gwella'u hymddygiad cyn mynd yn ôl i addysg prif ffrwd. Mae 10 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, mae pob disgybl wedi'u cofrestru'n ddeuol, maent yn aros ar y gofrestr yn eu hysgol prif ffrwd, ac yn ailintegreiddio am o leiaf un diwrnod yr wythnos. Ar hyn o bryd, mae rhai disgyblion yn mynychu ysgolion prif ffrwd yn amser llawn.

Mae ychydig dros 70% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Daw pob disgybl o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Ar hyn o bryd, daw pob disgybl o ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae gan bob disgybl anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan hanner y disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae tri athro, gan gynnwys yr athro sydd â gofal, a phedwar cynorthwyydd addysgu. Mae'r athro sydd â gofal wedi bod yn ei swydd er 2006.

Mae'r UCD yn rhannu ei hadeilad a'i chyfleusterau gyda chanolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae gan yr athro sydd â gofal am yr UCD gyfrifoldeb rheoli am y ddarpariaeth hon. Ni chafodd y ganolfan adnoddau arbenigol ei chynnwys yn yr arolygiad o UCD Glanynant.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr UCD | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r UCD | Digonol |

**Perfformiad presennol**

Mae disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwella'u hymddygiad yn UCD Glanynant. Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae trefniadau ar gyfer adrodd am agweddau ar ddiogelu yn destun pryder;
- ni ddefnyddir data yn effeithiol i gynllunio'n strategol a monitro cynnydd disgyblion; ac
- nid yw staff yn defnyddio ystod addas o adnoddau asesu i lywio cynllunio a gosod targedau.

**Rhagolygon gwella**

Mae Glanynant yn cynnal cysylltiadau cryf ag ysgolion i sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn ailintegreiddio i ddarpariaeth prif ffrwd. Fodd bynnag, bernir bod rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nid yw arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn systematig;
- ni chaiff prosesau hunanarfarnu eu hymgorffori'n ddigon cadarn;
- ni chaiff cynlluniau, polisïau a chofnodion cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau eu cynnal yn dda; ac
- mae'r pwyllgor rheoli yn aneffeithiol wrth gefnogi a herio'r UCD.

## Argymhellion

A1 Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd am faterion diogelu

A2 Gwella'r defnydd a wneir o ddata i ddadansoddi a chynllunio a monitro gwelliannau

A3 Ymestyn adnoddau asesu ac arbenigedd i wella gosod targedau a monitro

A4 Gwella prosesau hunanarfarnu i helpu cynllunio gwelliannau

A5 Datblygu prosesau effeithiol ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod dogfennau polisi yn cael eu diweddaru

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan ddisgyblion yn yr UCD ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Maent yn dechrau yn y ganolfan heb lawer o hyder, cânt anhawster yn rheoli eu hymddygiad, ac mae ganddynt hanes o bresenoldeb gwael. Fodd bynnag, yn yr UCD, maent yn ymateb yn dda i'r ethos meithringar ac yn datblygu hyder a brwdfrydedd i wella'u dysgu ac yn cymryd rhan lawn mewn gwersi. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u hanghenion dysgu yn aml o fannau cychwyn isel.

Dros gyfnod, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda ac mae hyn yn eu helpu i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n ddiwyd trwy gydol y gwersi ac yn gweithio gyda brwdfrydedd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus mewn ystod o bynciau a lleoliadau, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd partner.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof mewn mathemateg ac yn cymhwyso eu medrau rhif yn dda i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau meddwl yn dda i wneud cysylltiadau rhwng syniadau ac maent yn cysylltu dysgu o'r UCD â gwaith yn eu hysgolion prif ffrwd. Er enghraifft, mewn gwersi Saesneg, maent yn awgrymu diwedd arall i storïau ac yn gwella'u hysgrifennu trwy ddatblygu ac ymestyn eu defnydd o ansoddeiriau i ddisgrifio pobl a digwyddiadau.

Mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i wella eu darllen, yn cyflwyno gwaith yn ddestlus ac yn ymchwilio i wybodaeth ar gyfer gwaith testun.

Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn ysgrifennu'n glir ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Maent yn trefnu ac yn cyflwyno'u syniadau yn glir ac yn meddwl trwy gwestiynau ac atebion drostynt eu hunain. Defnyddiant atalnodi a sillafu yn gywir mewn darnau o ysgrifennu creadigol estynedig.

Mae disgyblion yn ymarfer a datblygu eu medrau cyfathrebu trwy gydol y diwrnod ysgol ac maent yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau. Mae disgyblion yn cydweithio mewn grwpiau ac mewn parau, ac mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol hefyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando ac ymateb i bobl eraill ac yn cyfrannu'n sylweddol at drafodaethau.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn hyderus trwy gydol y diwrnod ysgol ac maent yn dechrau defnyddio geirfa Gymraeg yn fwy hyderus ar draws y cwricwlwm.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD ac maent yn credu bod staff yn ymateb yn dda i unrhyw honiadau o fwlio. Datblygant berthnasoedd da iawn gyda staff ac maent yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt broblem neu bryder. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais a moesgar tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac maent wedi datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corff a gwella'u diet. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol yn ystod amser egwyl ac yn gwneud dewisiadau bwyta'n iach.

Mae pob disgybl yn yr UCD yn mynychu eu hysgol prif ffrwd am ran o'r wythnos. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder yn eu hysgol prif ffrwd ac mae llawer ohonynt yn mynychu ysgol prif ffrwd amser llawn cyn diwedd cyfnod allweddol 3. Yn ystod blwyddyn academaidd 2012-2013, llwyddodd 70% o ymadawyr i gael eu hailintegreiddio'n llawn yn eu hysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn archwilio materion diogelwch personol, gan gynnwys defnydd diogel o'r rhyngrwyd, yn ystod gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac yn trafod effaith eu hymddygiad ar eu lles eu hunain a lles pobl eraill. Datblygant agweddau cadarnhaol tuag at weithio gyda phobl eraill ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn prosiectau cymunedol. Maent yn ymfalchïo yn y cyfraniad a wnânt i wella'r ardal o amgylch yr ysgol. Maent wedi plannu coed fel rhan o brosiect cadwraeth lleol, ac wedi adeiladu a lleoli blychau nythu mewn coetir cyfagos.

Mae presenoldeb wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn dros gyfnod o dair blynedd. Mae lefelau presenoldeb ar gyfer pob disgybl yn dangos gwelliant yn eu presenoldeb cyn ymuno â'r UCD.

Mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn casglu data ar waharddiadau cyfnod penodol ar gyfer disgyblion cyn iddynt ddechrau, ac felly ni allant gynnwys y wybodaeth hon wrth fesur yr agwedd hon ar gynnydd a lles disgyblion. Dros y tair blynedd diwethaf, ni fu unrhyw waharddiadau parhaol.

Mae disgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith a'u cyflawniadau. Maent yn cyfrannu'n hyderus at drafodaethau mewn gwersi ac yn cymryd rhan mewn gwneud dewisiadau ynghylch gweithgareddau gwobrwyo, er enghraifft. Mae disgyblion yn ethol aelodau o'r cyngor ysgol sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn anffurfiol gyda'r athro sydd â gofal i godi pryderon a chynllunio gweithgareddau gwobrwyo. Maent yn effeithiol wrth ddylanwadu ar wneud penderfyniadau ac maent wedi gwneud newidiadau i fwydlen y cinio ysgol i ailgyflwyno bar salad.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n briodol i anghenion academaidd a chymdeithasol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol briodol sy'n defnyddio asiantaethau allanol yn dda. Rhoddir cyfle i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 drafod a dylanwadu ar y meysydd y maent yn dymuno'u hastudio. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol ac yn cefnogi anghenion disgyblion unigol yn dda. Mae'r UCD yn ymateb yn dda i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd trwy ddiwygio'i chynllunio cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau. Mae'r UCD yn datblygu rhaglen gydlynus i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu'r medrau hyn trwy gael cymorth effeithiol gan eu hathrawon a'u cynorthwywyr addysgu. Mae'r UCD yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm i hyrwyddo hyder a gweithio annibynnol ymhlith disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn amlwg mewn agweddau ar wersi yn yr UCD. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio Cymraeg achlysurol ac fe gânt eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn gwersi.

Mae'r UCD yn darparu cyfleoedd rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan i ddysgwyr ymgymryd ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a datblygu eu dealltwriaeth ohoni. Caiff pob disgybl eu gwneud yn ymwybodol o'r amgylchedd, eu lle ynddo a'r angen i ofalu amdano. Mae prosiectau sy'n gwella'r amgylchedd lleol yn rhan gref o'r UCD ac maent yn hyrwyddo'i gwaith yn y gymuned yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio yn y parc lleol yn codi sbwriel.

## Addysgu: Da

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda, maent yn cynllunio'u gwersi'n dda ac yn gweddu'r gwaith y maent yn ei osod i alluoedd ac anghenion disgyblion yn ofalus. Bron ym mhob un o'r gwersi, ceir perthynas weithio gefnogol rhwng disgyblion, athrawon a chynorthwywyr addysgu sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr amgylchedd dysgu cadarnhaol yn yr UCD.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgwyliadau uchel, cyflymdra bywiog ac amrywiaeth gynlluniedig o dasgau heriol yn arwain at ddysgu o ansawdd da. Yn y gwersi hyn, mae staff yn gwirio cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio holi medrus i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd effeithiol. Mae'r adborth llafar hwn yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n dda i wella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ac adnoddau addysgu sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o wersi'n ddifyr ac yn briodol i anghenion a galluoedd disgyblion. Mae gweithgareddau

wedi'u hamseru'n dda yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gydweithio i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau dysgu a datrys problemau.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae llawer o sylwadau ar waith disgyblion yn eu helpu i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud rhagor o gynnydd. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio adnoddau asesu'n ddigon da i lywio'r addysgu.

Caiff rhieni adroddiadau addysgiadol bob wythnos ar gynnydd eu plant sy'n nodi cryfderau a gwendidau disgyblion yn effeithiol, a nodi targedau ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae'r UCD yn darparu lefel briodol o ofal ar gyfer pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw cofnodi ac adrodd am achosion o ymyriadau corfforol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru na chanllawiau'r awdurdod lleol. Nid yw'r agwedd hon ar drefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac mae'n destun pryder.

Mae pob un o'r staff yn canolbwyntio ar ddatblygu pob disgybl fel unigolyn a magu hyder a hunan-barch ymhlith disgyblion. Mae profiadau dysgu a darpariaeth allgyrsiol yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae'r UCD yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn cyfrannu at benderfyniadau am eu darpariaeth ar gyfer ymarfer corff. Mae sesiynau gweithgareddau awyr agored wythnosol a gweithgareddau chwarae pêl dyddiol yn helpu i gadw disgyblion i gadw'n heini.

Mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigonol. Mae'r UCD yn manteisio ar ystod eang o gymorth arbenigol defnyddiol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn defnyddio'r wybodaeth sy'n dod i law am anghenion disgyblion unigol yn ddigon da. Mae cynlluniau addysg unigol yn gosod targedau addas, cânt eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Mae rhieni disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plentyn. Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n dda gyda disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r UCD yn gwneud defnydd da o ystod o wasanaethau arbenigol i roi cyngor a chymorth o ansawdd da i ddisgyblion am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r rhain yn cynnwys addysg rhyw a pherthynas, a bwyta ac yfed yn iach.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan yr UCD ethos meithringar a chynhwysol cryf. Ceir pwyslais clir ar gydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl.

At ei gilydd, caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal yn dda ac maent yn darparu amgylchedd dysgu sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda iawn. Gwneir defnydd da o'r lle cyfyngedig. Mae'r adeilad yn meithrin amgylchedd tawel a diogel, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r UCD wedi rhoi pob un o'r argymhellion o adolygiad diweddar o iechyd a diogelwch ar waith yn llawn.

Mae pob un o'r ardaloedd addysgu o faint priodol ac yn cynnwys adnoddau da, a cheir ynddynt arddangosfeydd addysgiadol sy'n cefnogi dysgu. At ei gilydd, mae'r UCD yn darparu adnoddau dysgu priodol gyda chyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da ar gyfer disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r weledigaeth a osodwyd gan arweinwyr yr UCD yn glir ac yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd disgyblion i fynd yn ôl i ysgolion prif ffrwd. Mae'r UCD yn cyfleu hyn yn effeithiol i ysgolion prif ffrwd, ac mae pob un o'r staff yn UCD Glanynant wedi ymrwymo i hyn.

Mae datganiad cenhadaeth yr UCD, sef 'ni fydd ein gorffennol yn ein cyfyngu' yn adlewyrchu'n addas y gred yng ngallu ei disgyblion i lwyddo. Mae gan yr UCD y nod strategol i ddarparu ymyrraeth addysgol tymor byr i gynnal lleoliad ysgol prif ffrwd disgyblion, neu gefnogi integreiddio disgyblion i ddarpariaeth arall briodol pan fydd angen. Mae'r UCD yn bodloni'r nod hwn yn llwyddiannus.

Mae polisi yn cyd-fynd â nodau, gwerthoedd a blaenoriaethau'r UCD. Mae'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r athro sydd â gofal ac aelodau eraill o'r tîm. Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn, a pholisïau eraill a dogfennau cynllunio yn gyfoes, ac nid ydynt yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer y gwaith yn yr UCD yn glir.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn mynd yn fwy trylwyr. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau sy'n cael ei wneud gan yr athro sydd â gofal. Mae staff yn cyfarfod deirgwaith bob wythnos i drafod gwaith yr UCD. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i staff drafod safonau disgyblion a darpariaeth. Mae trafodaethau yn cynnwys ymddygiad disgyblion yn ystod sesiynau integreiddio mewn ysgolion prif ffrwd a'r ffordd orau o gyflwyno'r hyn y mae staff wedi'i ddysgu mewn hyfforddiant diweddar a gawsant mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnodion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd hyn. O ganlyniad, ni all arweinwyr a rheolwyr fesur effeithiolrwydd y cyfarfodydd wrth wella gwaith yr UCD.

Nid yw'r pwyllgor rheoli yn monitro gwaith yr UCD yn effeithiol. Mae'n gefnogol i'r UCD, ond nid yw aelodau yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd nac yn holi cwestiynau heriol am gynnydd. Nid yw adroddiadau i'r Pwyllgor Rheoli gan yr athro sydd â gofal yn cynnwys digon o fanylion yn gyson i aelodau ddeall yr hyn y mae angen ei wella. O ganlyniad, nid yw aelodau'n dwyn yr UCD i gyfrif.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae prosesau hunanarfarnu, sy'n nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn datblygu ond nid ydynt yn systematig nac yn cael eu hymgorffori'n ddigon cadarn. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ond nid yw'n nodi agweddau pwysig y mae angen eu gwella, gan gynnwys meysydd pwysig sy'n cael eu cydnabod gan bobl eraill.

Nid oes gan yr UCD system gwybodaeth reoli addas i'w galluogi i ddefnyddio digon o drylwyredd i ddadansoddi data perfformiad a gosod targedau priodol ar gyfer gwella. Nid yw ei systemau papur yn ddigon soffistigedig i alluogi arweinwyr i ddadansoddi gwybodaeth a chynllunio gwelliannau.

Mae cylch gwella'r UCD yn cynnwys amserlen briodol o weithgareddau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn. Mae dadansoddiad athrawon o fonitro perfformiad disgyblion unigol yn dechrau bwydo i gynllunio strategol ar gyfer gwella a thargedau perfformiad staff unigol. Erbyn hyn, mae'r targedau hyn yn cysylltu â hyfforddiant priodol mewn meysydd o wendid a nodwyd. Fodd bynnag, nid yw staff yn cyfrannu ddigon at broses hunanarfarnu strategol.

Mae staff yn myfyrio ar eu harfer mewn cyfarfodydd dyddiol anffurfiol. Maent yn rhannu syniadau ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda a sut i wella'u gwaith. Mae hyn yn galluogi staff yn yr UCD i fod yn fwy cyson o ran eu dulliau, yn enwedig wrth ddelio ag ymddygiadau disgyblion. Fodd bynnag, mae'r arfer o gofnodi cynllunio, monitro a gwneud penderfyniadau, yn wan.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth strategol gydag ysgolion prif ffrwd yn gryfder yn yr UCD. Mae polisi'r awdurdod lleol sy'n gofyn bod ysgolion prif ffrwd yn parhau i gynnig lleoliad rhan-amser i ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol prif ffrwd eu hunain bron bob amser.

Mae gwaith effeithiol rhwng yr UCD ac ysgolion prif ffrwd yn cynorthwyo disgyblion i wella'u hymddygiad, eu hunan-barch a'u lles. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hagwedd at ddysgu ac mae'n eu galluogi i fwynhau dysgu a gwella'u cyflawniadau.

Mae'r UCD yn llwyddiannus o ran sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn mynd yn ôl i ddarpariaeth prif ffrwd amser llawn. Pan fydd angen, mae'r UCD yn rhoi cymorth dyddiol i ysgolion prif ffrwd a chyswllt parhaus trwy alwadau ffôn gyda chyngor ac arweiniad. Y sylfaen ar gyfer llwyddiant y bartneriaeth yw cyfathrebu hynod effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn cynnal cofnodion gweithredol o'r gwaith hwn. O ganlyniad, ni all arweinwyr arfarnu'n gywir beth sy'n gweithio'n dda a'r camau sy'n llai effeithiol.

Mae partneriaethau strategol gydag ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol a gwirfoddol yn cefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion. Nid yw'r UCD yn arfarnu deilliannau'r partneriaethau hyn ar gyfer disgyblion yn ffurfiol. O'r herwydd, nid oes modd barnu eu heffeithiolrwydd.

Mae partneriaeth ranbarthol lwyddiannus yn helpu disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol. Mae hyn yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng y gymuned a disgyblion yn yr UCD.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r UCD wedi'i staffio'n briodol i fodloni anghenion disgyblion a darparu gwasanaeth allymestyn ar gyfer ysgolion prif ffrwd. Mae gan staff addysgu a staff

cymorth gymwysterau a phrofiad da.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau yn cefnogi a gwella'r amgylchedd dysgu.

Mae staff yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella'u medrau a'u harbenigedd wrth gynorthwyo disgyblion.  Er enghraifft, mae hyfforddiant dwys yn Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd a dysgu disgyblion yn y pwnc.

Mae trefniadau rheoli perfformiad a darpariaeth ar gyfer datblygiad staff yn dechrau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i arfer ystafell ddosbarth.

Defnyddir staff yn effeithiol yn yr UCD ac wrth gefnogi ailintegreiddio i'r brif ffrwd. Mae eu rôl allymestyn ddatblygol yn helpu ysgolion prif ffrwd i gynyddu eu gallu i gynnal disgyblion ag ymddygiadau anodd ac atal disgyblion rhag mynd i'r UCD.

Mae gan yr athro sydd â gofal gyfrifoldeb arwain a rheoli ar gyfer canolfan adnoddau arbenigol yn yr un adeilad.

Mae'r UCD yn darparu gwerth da am arian gan fod disgyblion yn cyflawni safonau da.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr**

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei ddangos.

Holiadur Arbennig (Cyffredinol)

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei ddangos.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sw Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Anthony Mulcahy | Arolygydd Tîm |
| Catherine Mary Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Alwyn Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Les Archard | Enwebai’r Darparwr |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**: anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**: anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**: anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**: anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**: Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**: adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**: Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**: Cod Ymarfer

**NAS**: nam amlsynhwyraidd

**NC**: nam ar y clyw

**NG**: nam ar y golwg